TGAU

3010NA0-1

**DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2024 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN UWCH

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.
**Mae'r ddwy gerdd yn sôn am rwystro a chyfyngu rhyddid.**

CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]

(Trowch y dudalen)

## OFN

**‘TERRORISM CAN HIT US ANYWHERE FROM ANY PLACE.’ – GORDON BROWN**

**Pan fo holl rym tywyllwch dros y byd,
a rhyddid wedi’i fygwth ar bob tu,
pan fo cysgodion ar y ffyrdd i gyd
a phob un cornel stryd yn gysgod du,
pan nad oes dim ond dychryn ar y sgrîn
a dim ond nos yr ochr draw i’r llen,
pan fo pob ffrind yn sinistr a blin
a’r rhai mewn grym yn gweld y byd ar ben,
diffoddwch y teledu am y tro,
agorwch lenni’r lolfa led y pen,
cofleidiwch yr anwybod, ewch ag o
tu allan ar y stryd fel cyllell wen
i dorri drwy hualau’r ofnau sydd
yn cadw pawb yn saff rhag bod yn rhydd.**

**Hywel Griffiths**

(Trowch y dudalen)

**MYND AM DRO MEWN LOCKDOWN (ETO)**

**Mae *min gan y mis bach heddiw,
ei fysedd oer yn gwthio'u ffordd drwy 'nghot
wrth i mi grynu, a chodi'r zip jyst bach yn uwch.
Ond dwi *mas. Drwy'r drws ac am y llwybr,
ar fy nhro beunyddiol rownd y bloc
gan ei fod, medden nhw, yn llesol i'r enaid.**

**Dros y bont ac i'r dde, fel bob tro,
fy nhraed yn mynd heb feddwl, bron,
a dwi'n tynnu'n ffôn o 'mhoced i sgipio cân.
Difaru peidio gwisgo menig.**

**Dwi'n cyrraedd *estyll y WETLANDS
ac yn edrych o 'nghwmpas yn iawn am y tro cynta heddi.
Mae'r gwylanod yma, wrth gwrs,
yn sgowtio am grwstyn yn y golau oer,
a'r iâr ddŵr yn chwarae mig rhwng cynffonau'r *cyrs.
Sisial y brwyn bron yn tawelu ceir y FLYOVER,
a sblash yn chwalu adlewyrchiad coch
boncyffion cwyros: dau *falard
sy'n credu y cawn nhw fwyd gan hon, wir.**

**Mae bywyd yma'n aros i ni, o hyd,
dim ond i ni fod â'r galon i ddod mas i gwrdd ag e.**

**Elen Ifan**

**(Trowch y dudalen)**

## GEIRFA

*min – teimlad oer
*mas – allan
*estyll – planciau/darnau o bren
*cyrs/brwyn/cwyros – planhigion sy'n tyfu wrth ymyl dŵr
*falard – malard, math o hwyaden, aderyn

DIWEDD Y PAPUR